

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Chwefror 2019	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.00	SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant
(Tudalennau 1 – 27)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion
(Tudalennau 28 – 35)

2.2 P-05-863 Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am
ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel
(Tudalennau 36 – 41)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Cydraddoldebau

3.1 P-05-836 Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau
(Tudalennau 42 – 44)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd

3.2 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc
(Tudalennau 45 – 47)



- 3.3 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru
(Tudalen 48)
- 3.4 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!
(Tudalennau 49 – 52)
- 3.5 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru
(Tudalennau 53 – 56)
- 3.6 P-05-849 Dylai pob dyn yng Nghymru gael mynediad drwy'r GIG at y profion diagnostig gorau posibl ar gyfer canser y prostad.
(Tudalennau 57 – 64)

Amgylchedd

- 3.7 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru
(Tudalennau 65 – 69)
- 3.8 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr
(Tudalennau 70 – 73)

Cyllid

- 3.9 P-05-840 Cyllid Teg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) a phob Awdurdod Lleol arall
(Tudalennau 74 – 93)

Llywodraeth Leol

- 3.10 P-05-781 Cymuned Port Talbot yn erbyn yr Archgarchar
(Tudalennau 94 – 95)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Item 5

5 Ystyried adroddiadau drafft

5.1 Adroddiad drafft – P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol
(Tudalennau 96 – 121)

5.2 Adroddiad drafft – P-05-784 Dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn ac effeithiau diddyfnu – adnabyddiaeth a chefnogaeth
(Tudalennau 122 – 170)

6 Sesiwn dystiolaeth – P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli

(Tudalennau 171 – 176)

Cyng John Prosser (SOSPPAN)

Cyng Louvain Roberts (SOSPPAN)

Cyng Deryk Cundy (SOSPPAN)

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Item 8

8 Trafodaeth yn ystod y sesiwn dystiolaeth flaenorol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan BlowforBradley Campaign, ar ôl casglu 1,463 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn credu bod achosion o fwlio mewn ysgolion yn cael eu hanwybyddu'n aml ac nad yw'r mater yn cael ei wynebu mewn gormod o achosion. Mae'n ofynnol i ysgolion fod â pholisi gwrth-fwlio ond, yn rhy aml, datganiad gwaith papur yn unig yw hyn na weithredir arno.

Rydym am i Gynulliad Cymru greu fframwaith gwrth-fwlio safonol y gellir ei orfodi drwy'r gyfraith. Mae bwlio mewn ysgolion yn aml yn effeithio ar y dioddefwyr ar hyd eu bywydau, felly mae angen newidiadau gan fod y system bresennol yn fethiant.

Yn aml, nid yw ysgolion yn cofnodi achosion o fwlio o'r fath oherwydd ofn gwneud niwed i'w henw da ac mae'r dioddefwyr sy'n codi llais yn aml yn canfod eu bod eu hunain yn cael eu cosbi, gan wneud mwy fyth o niwed i'w hunan-barch.

Rydym yn mynnu y caiff achosion o fwlio eu cofnodi ac y gweithredir arnynt drwy system gofnodi well, teledu cylch cyfyng, adrodd, a chyswllt gorfodol â rhieni.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Chwefror 2019

Petitions Committee | 12 February 2019

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-862

Teitl y ddeiseb: Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Testun y ddeiseb: Rydym yn credu bod achosion o fwlio mewn ysgolion yn cael eu hanwybyddu'n aml ac nad yw'r mater yn cael ei wynebu mewn gormod o achosion. Mae'n ofynnol i ysgolion fod â pholisi gwrth-fwlio ond, yn rhy aml, datganiad gwaith papur yn unig yw hyn na weithredir arno.

Rydym am i Gynulliad Cymru greu fframwaith gwrth-fwlio safonol y gellir ei orfodi drwy'r gyfraith. Mae bwlio mewn ysgolion yn aml yn effeithio ar y dioddefwyr ar hyd eu bywydau, felly mae angen newidiadau gan fod y system bresennol yn fethiant.

Yn aml, nid yw ysgolion yn cofnodi achosion o fwlio o'r fath oherwydd ofn gwneud niwed i'w henw da ac mae'r dioddefwyr sy'n codi llais yn aml yn canfod eu bod eu hunain yn cael eu cosbi, gan wneud mwy fyth o niwed i'w hunan-barch. Rydym yn mynnu y caiff achosion o fwlio eu cofnodi ac y gweithredir arnynt drwy system gofnodi well, teledu cylch cyfyng, adrodd, a chyswllt gorfodol â rhieni

1. Y cefndir

Dyletswyddau cyfreithiol

Mae dyletswydd gyfreithiol ar bob ysgol yng Nghymru i sicrhau bod unrhyw fath o fwlio yn cael ei drin yn effeithiol. Mae ystod o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru sydd â'r nod o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth, gan gynnwys bwlio. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i fwlio yn cynnwys: Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006; Deddf Plant 2004; Deddf Addysg 2002; Deddf Llywodraeth Cymru 1998; Deddf Hawliau Dynol 1998; Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

O dan adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, mae'n ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir bennu mesurau i annog ymddygiad da ac atal pob math o fwlio ymhlith dysgwyr. Mae rhai ysgolion yn dewis cynnwys y wybodaeth hon mewn polisi gwrth-fwlio tra bod eraill yn ei chynnwys yn eu polisi ymddygiad. O dan Ddeddf 2006, mae'n rhaid i bob ysgol gael polisi ymddygiad yn ôl y gyfraith.

Canllawiau

Yng Nghymru, mae **canllawiau a chylchlythyrau Llywodraeth Cymru** yn cefnogi'r ddeddfwriaeth. Nid yw'r rhain yn gosod dyletswyddau cyfreithiol yn uniongyrchol, ond maent yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ac ysgolion ar sut i weithredu polisiau bwlio o ddydd i ddydd. Bwriad y canllawiau yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol.

Yn unol â [Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio](#) Llywodraeth Cymru (Medi 2003), mae'n rhaid i **benaethiaid a chyrff llywodraethu gael polisi i atal pob math o fwlio ymhlith disgyblion**, a hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r cylchlythyr yn nodi'r mathau o wybodaeth y dylid eu cynnwys o fewn polisi ysgol a sut y gall ysgolion fynd i'r afael â bwlio.

Mae'r cylchlythyr hefyd yn nodi y dylai uwch aelod o staff oruchwylio'r polisi; bod egwyddorion y polisi yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd er mwyn parhau i atgoffa disgyblion a staff; ac y dylai corff llywodraethu'r ysgol adolygu'r polisi yn flynyddol i sicrhau ei fod yn effeithiol.

Mae'r cylchlythyr yn awgrymu y dylai ysgolion gadw cofnodion cywir o achosion o fwlio ac ymateb yr ysgol.

Yn 2011, ychwanegodd Llywodraeth Cymru at y cylchlythyr gyda [chyfres o ddeunyddiau gwrth-fwlio](#) sy'n darparu arweiniad ac atebion ymarferol ar atal ac ymateb i achosion o fwlio mewn ysgolion.

2. Ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru

Ar 14 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar [ganllawiau drafft i herio bwlio mewn ysgolion](#). Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 14 Chwefror 2019. Nod y canllawiau diwygiedig yw:

- Creu canllawiau cliriach, haws eu defnyddio, wedi'u targedu at y cynulleidfaoedd allweddol (ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol, rhieni, plant a phobl ifanc);
- Esbonio'r agweddau allweddol yn gliriach (gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau a chofnodi a monitro digwyddiadau);
- Sicrhau bod y canllawiau'n cwmpasu pob math o fwlio;
- Mynd i'r afael â bwlio mewn ffordd fwy cyfannol, gan sicrhau bod y canllawiau'n adlewyrchu polisiau a diwygiadau ehangach sydd ar waith eisoes a rhai a gyflwynir yn y dyfodol;
- Cynnwys a chyfeirio at adnoddau gwrth-fwlio yn y canllawiau i helpu ysgolion i roi'r polisi ar waith ar lefel weithredol.

Mae'r canllawiau drafft, diwygiedig yn cynnwys adran ar gofnodi a monitro. Mae'n dweud:

Dylai ysgolion gael trefniadau yn eu lle er mwyn adrodd am a chofnodi bwlio ac ymddygiad gwael. Drwy gynnal a chadw cofnodion effeithiol mae'n galluogi ysgolion i wirio os oes adroddiadau eraill am y dysgwyr, a gwneud penderfyniad am yr hyn sydd wedi ei gofnodi mewn dull cyfannol a gwybodus. Gall ysgolion adnabod patrymau ymddygiad ac ehangder y bwlio drwy fonitro digwyddiadau, a chymryd camau rhagweithiol i'w herio.

Mae'n mynd ymlaen i nodi y dylai ysgolion gofnodi pob achos o fwlio gan amlinellu'r mathau penodol o fwlio, gan gynnwys bwlio sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig a fydd yn helpu ysgolion i gefnogi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r canllawiau'n nodi mai'r ysgolion unigol fydd yn penderfynu pa ddata a gwybodaeth a gesglir ganddynt yng nghyd-destun materion penodol eu hysgolion.

3. Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru

Ar 16 Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru [Stori Sam, Gwranddo i brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru](#). Roedd hyn yn cynnwys y blaenoriaethau a ganlyn i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwelliant:

- Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar ysgolion i gofnodi pob digwyddiad a'r mathau o fwlio sy'n cael eu nodi. Mae hyn yn golygu y bydd angen diffiniad clir o fwlio, i'w gytuno wedi ymgynghoriad llawn gyda phlant a phobl ifanc;
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg am hawliau plant yn elfen orfodol o'r cwricwlwm.

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn nodi bod adroddiad y Comisiynydd Plant wedi llywio'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau diwygiedig.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2017, ystyriodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb, [P-05-752 Meithrin gallu plant i wrthsefyll seiberfwlio](#). Er i'r Pwyllgor gael ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, ni roddodd y Deisebydd unrhyw ymateb pellach a chytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-862
Ein cyf/Our ref KW/05031/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

7 Ionawr 2019

Annwyl David

Deiseb P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr yn gofyn am fy safbwynt i ar y ddeiseb uchod.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylid goddef unrhyw fwlio yn y system addysg yng Nghymru. Rydym yn credu bod diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn hollbwysig, ac rydym yn disgwyl i ysgolion fabwysiadu dull gweithredu "dim goddefgarwch" wrth fynd i'r afael â phob math o fwlio. Ein gweledigaeth yw mynd i'r afael â bwlio mewn ffordd holistaidd. Bydd y ffordd hon yn ymdrin â'r hyn sydd wrth wraidd ymddygiad annerbyniol, ac yn creu amgylchedd diogel sy'n ennyn diddordeb y dysgwyr er mwyn iddynt fod yn barod i ddysgu.

Rhaid i bob ysgol, yn ôl y gyfraith, gael polisi ymddygiad. Dylai strategaethau gwrthfwlio effeithiol o'r fath fod yn rhan ganolog o'r polisi ymddygiad hwnnw a dylent gael eu datblygu a'u gweithredu gan bawb yn yr ysgol, gan gynnwys y dysgwyr.

Ceir ystod o strategaethau a rhaglenni ar gyfer mynd i'r afael â bwlio. Mater i'r ysgol, fel rhan o'i dull gweithredu, yw penderfynu ar yr hyn sy'n gweithio orau i'w dysgwyr. Bydd y penderfyniadau hyn wedyn yn llunio sut y mae ysgol yn cofnodi ac yn monitro bwlio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Rydym yn diweddarau ein canllawiau gwrthfwlio, sef *Parchu eraill*, a gyhoeddwyd yn 2011. Cyhoeddodd ganllawiau diwygiedig ar gyfer ymgynghori arnynt ym mis Tachwedd. Lluniwyd y drafft a gyhoeddwyd gennym gyda chymorth arbenigwyr, ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r gwaith ymgysylltu helaeth sydd eisoes wedi ei wneud gyda'r prif randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, a phlant a phobl ifanc. Rydym eisiau sicrhau bod y canllawiau diwygiedig yn rhoi cefnogaeth ymarferol i ysgolion ac yn egluro'r gyfraith, y polisi a strategaethau effeithiol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r pwysigrwydd o gael dull gweithredu rhagweithiol ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn mynd i'r afael â bwlio a'i atal, sy'n cynnwys cynnal trafodaethau gyda rhieni. Bydd adnodd ar-lein yn ategu'r canllawiau diwygiedig, ac mae fersiwn gynharach ohono wedi ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad.

Hoffwn sicrhau ein bod yn cael yr ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau yn yr ymgynghoriad. Er mwyn hwyluso hyn, bydd fy swyddogion yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu amlasiantaethol yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Rydym yn annog eich deisebwyr i ddweud eu dweud ar y canllawiau drafft drwy ymateb i'r [ymgynghoriad](#).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

P-05-862 Tackling school bullying – Correspondence from the Petitioner to the Chair, 06.02.19

Dear Sir/Madam

I refer to our recent petition which is due to be discussed.

I am recently aware of proposed updates to the WA guidelines in respect of bullying in schools. Whilst there is some great potential in dealing with bullying within the updated guidelines I would like to share my reservations.

1/ Schools are obliged to create an anti bullying/safeguarding policy, based upon the government guidelines. There is flexibility to tailor the policy.

2/ Bullying/Safeguarding policies are to be updated periodically.

3/ 1&2 are very good BUT the policies must be acted upon. What rules or legislation is going to be put in place to ensure the actions of staff are carried out in relation to the policy.

4/ Supposing the point raised in 3 is put into legislation HOW is it going to be overviewed? School inspections need to investigate it is being carried out.

5/ to date bullying is a dirty word within schools and far too often is swept under the carpet. The mental health and wellbeing of victims are a casualty of this. Bullying progresses throughout adulthood if not checked early enough. Early intervention stops progression.

6/ Too often victims feel penalised by schools actions(or often inaction) towards dealing with bullying.

Given all of the above we would like a tighter national framework with a standard policy. This would simplify inspections and when teachers change jobs the policy is the same. Temporary staff would be aware of correct procedures also.

We need to adopt a system of early intervention and a stepped systematic approach to dealing with it. I suggest upon possibly the second incident parents are informed, the third incident the perpetrator undergoes awareness education, possibly a short course to be carried out during a detention. Any further incident is compulsory referred to a police liaison officer.

I am merely suggesting all of the above. I lost my son in the most tragic of circumstances due to bullying and I want you to be bold and make a difference and

adopt a policy that works. Lets intervene, let's keep pupils safe and turn lives around.
In order to do this we have to accept that the current system is flawed and
inadequate.

Yours faithfully

Byron John

Eitem 2.2

P-05-863 Galwn ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Malpas Women's Institute, ar ôl casglu 141 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Mae Sefydliad y Merched (WI) Malpas yn galw am ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Sefydlwyd Sefydliad y Merched ym 1915, ac mae'n ymgyrchu dros faterion sy'n bwysig i fenywod a'u cymunedau. Ein nod yw grymuso ac ysbrydoli menywod o bob oed. Credwn na ddylid gorfodi neb i fynd heb gynhyrchion hylendid oherwydd cost y nwyddau hyn.

Gyda rhagor o fenywod o hyd yn gorfod defnyddio banciau bwyd i gadw eu hunain yn fyw, daeth yn amlwg bod cynhyrchion hylendid yn foethustra na all menywod ar incwm isel eu fforddio.

Ar draws y DU mae genethod sy'n rhy dlawd i brynu nwyddau hylendid. Maent yn gorfod colli ysgol. Tanseilir eu hurddas.

Mae anghenion menywod wedi cael eu hesgeuluso am amser rhy faith. Yn wahanol i drafodion eiddo, mae cynhyrchion hylendid yn dal heb eu heithrio rhag TAW. Nid yw'r mislif yn rhywbeth moethus, mae'n rhywbeth anhepgor. Nid yw menywod yn dewis cael mislif.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddilyn arweiniad yr Alban a darparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Rydym yn mynnu y caiff achosion o fwlio eu cofnodi ac y gweithredir arnynt drwy system gofnodi well, teledu cylch cyfyng, adrodd, a chyswllt gorfodol â rhieni.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Casnewydd
- Dwyrain De Cymru

P-05-863 Darparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Chwefror 2019

Petitions Committee | 12 February 2019

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

P-05-863 Darparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Mae Sefydliad y Merched (WI) Malpas yn galw am ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Sefydlwyd Sefydliad y Merched ym 1915, ac mae'n ymgyrchu dros faterion sy'n bwysig i fenywod a'u cymunedau.

Ein nod yw grymuso ac ysbrydoli menywod o bob oed. Credwn na ddylid gorfodi neb i fynd heb gynhyrchion hylendid oherwydd cost y nwyddau hyn.

Gyda rhagor o fenywod o hyd yn gorfod defnyddio banciau bwyd i gadw eu hunain yn fyw, daeth yn amlwg bod cynhyrchion hylendid yn foethustra na all menywod ar incwm isel eu fforddio.

Ar draws y DU mae genethod sy'n rhy dlawd i brynu nwyddau hylendid. Maent yn gorfod colli ysgol. Tanseilir eu hurddas.

Mae anghenion menywod wedi cael eu hesgeuluso am amser rhy faith. Yn wahanol i drafodion eiddo, mae cynhyrchion hylendid yn dal heb eu heithrio rhag TAW. Nid yw'r mislif yn rhywbeth moethus, mae'n rhywbeth anhepgor. Nid yw menywod yn dewis cael mislif.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddilyn arweiniad yr Alban a darparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Cefndir

Tlodi mislif yw pan fo menywod a merched yn ei chael hi'n anodd fforddio cynhyrchion hylendid hanfodol bob mis, gan arwain at effeithiau sylweddol ar eu hylendid, eu hiechyd a'u llesiant.

Yn ôl [Plan International UK](#), elusen hawliau i ferched, nid yw un o bob 10 merch yn y DU yn gallu fforddio eitemau hylendid. Mae canfyddiadau eu gwaith ymchwil yn dangos bod un o bob saith merch wedi gorfod gofyn am gael benthyg eitemau hylendid gan ffrind oherwydd materion ynghylch fforddiadwyedd, a bu'n rhaid i fwy nag un o bob 10 merch greu eu cynhyrchion hylendid eu hun am yr un rheswm. Mae'r elusen wedi galw ar Lywodraeth y DU i roi terfyn ar dlodi mislif drwy ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim mewn ysgolion, banciau bwyd a llochesi i'r digartref.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Gwnaeth Carwyn Jones AC, y cyn Brif Weinidog, [ymrwymiad](#) y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol yng Nghymru i lunio ymateb cenedlaethol a chynaliadwy i dlodi mislif.

Ar 23 Mawrth 2018, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru ei bod wedi dyrannu £1 miliwn i fynd i'r afael â thlodi mislif yng Nghymru. Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn egluro y bydd 'awdurdodau lleol yn derbyn £440,000 dros y ddwy flynedd nesaf i fynd i'r afael â thlodi misglwyf yn eu cymunedau lle mae lefelau amddifadedd ar eu huchaf. Byddan nhw'n derbyn £700,000 o gyllid cyfalaf hefyd er mwyn gwella cyfleusterau a chyfarpar mewn ysgolion – gan wneud yn siŵr y gall pob merch a menyw ifanc gael mynediad i gyfleusterau hylendid da pan fyddan nhw eu hangen'.

Dadl yn y Cynulliad

Ar 2 Mai 2018, pasiodd Aelodau'r Cynulliad gynnig, a gyflwynwyd gan Jane Hutt AC a Jenny Rathbone AC, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried effaith tlodi mislif a'r stigma cysylltiedig ar fenywod a merched yng Nghymru yn ystod [dadl](#) yn y Cyfarfod Llawn.

Codwyd y mater yn flaenorol yn y Senedd. Ym mis Hydref 2017, cyflwynodd Huw Irranca-Davies AC [gwestiwn](#) yn galw am ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ac annog ymdrechion gan wirfoddolwyr ac awdurdodau lleol ar lawr gwlad i fynd i'r afael â thlodi mislif.

Rhagor o wybodaeth

Ar 2 Chwefror 2019, cyhoeddodd BBC Cymru erthygl, [‘Patients ‘denied free sanitary products’ in some Welsh hospitals’](#), a oedd yn nodi nad yw rhai byrddau iechyd yn darparu cynhyrchion hylendid i gleifion.

Mae adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad, '[Archwilio ymatebion banciau bwyd Cymru i dlodi mislif](#)'.

Mae Llywodraeth yr Alban yn ymdrin â thlodi mislif drwy gynnig padiau hylendid a thamponau am ddim i fenywod a merched o gartrefi incwm isel. Darparwyd cynhyrchion hylendid am ddim mewn llawer o ysgolion, colegau a phrifysgolion ers mis Awst 2018. Ym mis Ionawr 2019, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth yr Alban ei bwriad i ehangu'r gwaith hwn, gan sicrhau bod £4 miliwn ar gael i dalu am ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim mewn mwy o leoedd cyhoeddus, fel canolfannau hamdden a llyfrgelloedd. Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar leoliadau penodol ar gyfer dosbarthu'r cynhyrchion hyn i ateb y galw lleol yn y ffordd orau.

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/05008/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

16 Ionawr 2019

Amrygl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr yn fy hysbysu am ddeiseb Sefydliad y Merched Malpas yn galw am gynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

Rwy'n meddwl ei bod hi'n warthus bod rhai pobl yng Nghymru yn methu byw eu bywydau'n llawn bob dydd gan eu bod yn methu fforddio cynhyrchion misglwyf digonol i'w hunain a'u teuluoedd.

Efallai eich bod chi'n gwybod ein bod ni wedi dyrannu dros £1 miliwn o gyllid grant dros dair blynedd hyd at 2020 i awdurdodau lleol i helpu i drechu tlodi misglwyf a sicrhau urddas. Mae cyfran o'r cyllid hwn yn cael ei defnyddio i sicrhau bod toiledau ysgolion yn cynnwys cynhyrchion digonol fel bod pobl ifanc yn gallu ymdopi'n hyderus â'u misglwyf. Awdurdodau lleol sy'n deall anghenion eu cymunedau orau a phwy sydd angen y cymorth fwyaf. Maent wedi cael rhyddid i wario'r cyllid ar gyflenwi cynhyrchion misglwyf i bobl a fyddai'n methu eu fforddio fel arall drwy weithio gydag ysgolion, banciau bwyd a sefydliadau cymunedol eraill.

Mae yna enghreifftiau rhagorol o pa mor dda mae hyn yn gweithio ac rwy'n arbennig o falch o weld sut mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phobl ifanc ac yn gwrando ar eu safbwyntiau o ran pa fath o ddarpariaeth a fyddai orau iddyn nhw. Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol ac yn rhannu arferion gorau ledled Cymru fel y bo'n briodol.

Mae'n rhaid canmol ymrwymiad Llywodraeth yr Alban i ddarparu cynhyrchion misglwyf am ddim i bob disgybl a myfyriwr mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ac am eu cymorth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. All correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen ym 40

arbennig i gartrefi incwm isel. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn yr Alban i gael y newyddion diweddaraf am y sefyllfa a pha wersi y gellir eu dysgu.

Un o'r cynigion ym maniffesto'r Prif Weinidog oedd hyrwyddo cynllun gweithredu i gefnogi urddas mewn perthynas â'r misglwyf a chynnal y buddsoddiad cyfredol mewn ysgolion. Bydd gwersi a ddysgwyd o raglenni eraill i fynd i'r afael â thlodi misglwyf, ac adborth gan awdurdodau lleol ar eu camau gweithredu yn helpu i lywio ein dull o fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.



Jane Hutt AC/AM

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Eitem 3.1

P-05-836 Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Estelle Hart, ar ôl casglu 56 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Nid yw Rheoliadau Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017 wedi cael eu cymhwyso i Gymru, gan olygu nad oes gofyniad ar gyrff cyhoeddus datganoledig i gyhoeddi adroddiadau ar eu bwlch cyflog rhwng y rhyweddau mewn man canolog.

Rydym yn credu y dylai gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus gyhoeddi'r wybodaeth hon, ac i sicrhau tryloywder arian cyhoeddus, dylai'r wybodaeth hon fod ar gael mewn man canolog ac yn yr un fformat, gan ddilyn canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer gyrff sector cyhoeddus yn Lloegr.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/01096/18

David John Rowlands AM
Chair - Petitions committee.
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

16 January 2019

Dear David,

Thank you for your letter of 29 November requesting an update regarding the petition concerning gender pay gap reporting (P-05-836) to the Leader of the House.

I have made a clear and public commitment to publish gender pay gap data in a more open, user-friendly and accessible format. In my previous letter, I explained that any changes to gender pay gap reporting would be made in the context of strengthening the Public Sector Equality Duty (PSED) regulations generally and work has begun to determine how best to take this forward.

We will be working with the EHRC to consider the results of their monitoring exercise which has been undertaken over recent months with public bodies in Wales, as outlined previously. The outcomes of this exercise should be known in the new year. This will inform our work around the most appropriate ways to strengthen the PSED in Wales, including the gender pay gap reporting arrangements.

As detailed previously, we are already adopting the 'open data' approach through our work on public sector employment data and are working to expand it to cover the PSED information. A timescale for this project will be established in the new year based on the outcomes of the EHRC monitoring exercise.

It is clear from the ongoing work of the Gender Equality Review and discussions with stakeholders that strengthening gender pay gap reporting is a part of a much wider call to safeguard and enhance equality and human rights in Wales, particularly in the context of the UK's impending exit from the EU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. If you would prefer to be answered in Welsh we will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In light of this, I have asked my officials to commission research to assist our consideration of these issues. This will help us assess the benefits of a variety of possible actions, including strengthening existing regulation, enactment of the socio-economic duty and legislative provision relating to relevant international treaties.

This work will be linked closely to Phase 2 of the Gender Equality Review. To move it forward, we will be convening a seminar early in the new year, to engage with key stakeholders and scope the work that will be needed in more detail.

The work on reviewing and strengthening the Welsh PSED and the reporting arrangements will also be considered as a part of this research to ensure that the changes we make are effective, appropriate and complement existing legislation.

The aim of the Gender Equality Review is to ensure the Welsh Government is a feminist government which truly puts gender at the centre of our policies, ensuring no-one is left behind and everyone has the opportunity to be the best they can be. Gender pay gap reporting is an area which the Review is looking at, where change is needed and where we can make changes. It remains a priority and is an area in which I expect rapid progress to be made.

In the face of unprecedented change we must and will be proactive, ambitious, forward thinking and continue to do whatever is within our powers to ensure that Wales remains a modern, inclusive place to live and work. The work we are doing to tackle gender inequality, including the gender pay gap, is an important step in making this happen.

*Yours ever,
Jane*

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

P-04-408 : Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ariannu'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru i'r un graddau â'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yng Nghymru.

Daeth i'm sylw bod symiau gwahanol o arian yn cael eu rhoi i Wasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc ar gyfer ymdrin ag anhwylder bwyta. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yn cael £1 filiwn y flwyddyn gan Gynulliad Cymru, yn ogystal â phedwar grŵp darparu a hyfforddwyd gan arbenigwyr. Yn anffodus, mae gwaith ymchwil yn nodi'r ffaith bod pobl yn fwyaf tebygol o gael eu profiad cyntaf o anhwylder bwyta, yn enwedig Anorecsia Nerfosa, yn ystod eu glaslencyndod. Yn hanesyddol, roedd pobl yn cyrraedd glaslencyndod pan oeddent rhwng 12 a 15 oed. Fodd bynnag, bellach, mae hyn yn digwydd pan fydd pobl yn llawer iau ac felly mae'r ystadegau'n dechrau dangos bod mwy o blant iau yn dioddef o Anorecsia Nerfosa. Bydd pobl fel arfer yn dechrau dioddef o Fwlimia Nerfosa pan fyddant rhwng 18 a 25 oed. Fodd bynnag, fel gydag Anorecsia, gall hyn amrywio o berson i berson. Mae'r ffaith mai cymryd camau buan yw'r allwedd i sicrhau gwellhad cyflym mewn perthynas â'r ddau anhwylder, ac, yn ddiaw, pob anhwylder bwyta y gellir ei ddiagnosio, sy'n atal goblygiadau ariannol hirdymor i'r Llywodraeth, yn gwneud y cais hwn yn fwy perthnasol. Felly, rwy'n ymbil ar y Cynulliad i ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer dadl i gael gwared ar y gwahaniaeth hwn drwy roi'r un swm o arian i'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc Nghymru ag a roddir i'r Gwasanaeth i oedolion.

Cyflwynwyd y ddeiseb gan: Helen Missen

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 17 Gorffennaf 2012

Nifer y llofnodion: . 246

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05038/18

David John Rowlands AM
Chair
Petitions Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

17 January 2019

Dear David,

Thank you for your email of 10 December regarding petitions P-04-408 Child and Adolescent Eating Disorder Service and P-04-505 Eating Disorder Unit Wales.

Dr Jacinta Tan submitted her independent review on 30 November. It is a detailed, 260-page review, which my officials are considering.

A short, focused consultation with the NHS will take place before Welsh Government responds formally to the review.

I will write to you again in due course to confirm timescales for the focused consultation.

Yours sincerely,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:

0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. If your correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 46

P-04-408 Child and Adolescent Eating Disorder Service – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 30.01.19

Dear Committee

I have been part of the service review process, and so am privy to, and have read the full document written by Professor Tan.

Although it is not entirely swayed towards CAMHS provision, I do feel that the proposals suggested in the review, if taken up by the Health Minister, Mr Gething, will add a greater and more patient and carer centred service.

Ultimately I would hope that once in place, the financial cost to the Welsh Government, and emotional, physical and financial cost to service users and their families in the future, will be lessened.

It will be interesting to hear the government response, following their consultation process; and I hope for wisdom from them.

The review gave a voice to service users, carers and families, and to ignore the voice given to the public would be a sacrilege.

Thank you for continuing your interest in the petition submitted by me so many years ago. I am grateful, and hope my contribution will have helped set a better service for anyone in Wales with an Eating Disorder.

As a point of interest, my youngest son was referred to the SPEED team in Abergele last summer after a considerable weight loss. He was seen quickly, assessed and we have successfully turned around and averted what could well have become as serious an eating disorder as his sister. It was a terrifying time for us as a family. The SPEED team are leading the way in Wales, and should be upheld, as well as congratulated on their work.

As I have pointed out before, these are illnesses with genetic features and triggering components, much the same as physical illnesses such as breast cancer.

Without prompt, effective early intervention for Eating Disorders people continue to be entrenched by illnesses that are highly treatable.

We need to become leading authorities on Eating Disorders and their treatments in Wales, whereby England and indeed other countries, refer to us here.

Helen Missen

Eitem 3.3

P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am yr angen brys i ddarparu uned anhwylderau bwyta arbenigol yng Nghymru.

Gwybodaeth ychwanegol:

Hoffem weld uned anhwylderau bwyta arbenigol yn cael ei hadeiladu yng Nghymru i leihau'r pwysau a'r anghyfleustra o orfod teithio mor bell o aelodau'r teulu a chyfeillion drwy orfod mynd i Loegr i gael triniaeth. Yn 2007, cydnabu'r Llywodraeth nad oedd triniaeth arbenigol ar gael yng Nghymru a bod angen i'r sefyllfa hon newid, ond bum mlynedd yn ddiweddarach rydym yn dal i aros am y newid hwnnw. Gwn o brofiad personol pa mor anodd yw bod mewn ysbyty mor bell o gartref, a chredaf y byddai cael uned anhwylderau bwyta yng Nghymru yn gwneud y broses o gael triniaeth ac o wella yn rhwyddach i ddiodefwyr o Gymru.

Prif ddeisebydd: Keira Marlow

Ysytirwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 8 Hydref 2013

Nifer y llofnodion : 526

P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Myles Bamford-Lewis, ar ôl casglu 40,045 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i wrthdroi eu penderfyniad i israddio ein hysbyty sirol a chael gwared ar ein hadran damweiniau ac achosion brys.

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cynnig newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu mewn ysbytai yng ngorllewin Cymru. Maent yn cynnig israddio ysbyty cyffredinol Llwynhelyg yn ein sir ni ac ysbyty cyffredinol Glangwili yn sir Gâr, y ddau i safon ysbytai cymuned, ac adeiladu ysbyty cyffredinol newydd yn ardal Hendy-gwyn ar Daf. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu na fydd gennym bellach adran damweiniau ac achosion brys sy'n gweithredu'n llawn yn ein sir oherwydd y bydd yr adran hon wedi'i disodli gan uned mân anafiadau ar safle Llwynhelyg. O ganlyniad, bydd cleifion y mae angen gofal brys arnynt yn ein sir yn wynebu teithio am hyd at awr, neu efallai hyd yn oed yn fwy os ydynt yn byw yn ardaloedd mwy gwledig ein sir, i gael gofal brys a all achub bywyd mewn ysbyty a fydd y tu allan i'r sir. Byddai'r oedi hwn yn golygu bod bywydau yn sir Benfro mewn perygl, heb ystyried yr oedi ychwanegol wrth orfod aros am ambiwlans i gyrraedd y claf, sefydlogi'r claf, wedyn cludo'r claf i ysbyty sydd y tu hwnt i ffiniau ein sir. Mae hyn yn golygu colli munudau hanfodol mewn sefyllfa lle nad oes amser i'w golli.

Mae bod heb adran damweiniau ac achosion brys yn ein sir yn hollol annerbyniol, a'r rheswm am y cynnig yw torri costau ac, yn bwysicach oll, torri corneli. Wel, byddwn ni'n sefyll cornel sir Benfro ac ni fyddwn yn caniatáu iddynt ein torri ni o'r map!

Llofnodwch a rhannwch y ddeiseb hon. Ni allwn adael i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Hywel Dda gymryd ased pennaf ein sir oddi wrthym. Maen nhw eisoes wedi mynd â'r uned gofal arbennig babanod, yr uned famolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol a'r gwasanaeth gofal pediatrig 24 awr oddi wrthym, gan roi ein babanod, ein plant a'n mamau mewn perygl mawr! Nawr

maent yn dod i orffen y gwaith gyda gweddill gwasanaethau ysbyty ein sir.
Peidiwch â gadael i hynny ddigwydd!

Gyda'n gilydd, byddwn yn anfon neges at Steve Moore a Vaughan Gething y gallant feddwl eto os ydynt yn credu y bydd sir Benfro yn ildio heb frwydro'n ôl wrth iddynt fynd â'n gwasanaethau ysbyty oddi wrthym!

Achub adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg! Achub Ysbyty Llwynhelyg!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ein cyf/Our ref: CH.2218.1218
Eich cyf/Your ref:
Gofynnwch am/Please ask for: Corporate Information Officer
Rhif Ffôn /Telephone: 01267 239892
Ffacs/Facsimile:
Dyddiad/Date: 9 January 2018

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Mail to - SeneddPetitions@assembly.wales

CC- Nesta.lloyd-jones@welshconfed.org

Dear David J Rowlands AC/AM

Re Petition P-05-826 Pembrokeshire says NO!! To the closure of Withybush A&E!

Thank you for your letter of 10 December 2018.

I can confirm that there is no truth in the rumour that we plan to remove services from Withybush Hospital prior to a new planned and urgent care hospital being opened. At the same time, due to unprecedented pressures and service fragility our clinicians and managers will continue to make operational decisions and react to changing circumstances every day to ensure we can safely treat our patients. In this context absolute guarantees are very hard to make.

